# Disgrifiad Rôl, Arweinydd Cymunedol

Mae Elusen Aloud yn gweithio gyda phobl ifanc ledled Cymru, gan helpu i drawsnewid bywydau trwy rym cân.

Mae ein harweinwyr cymunedol gwirfoddol yn rhan hanfodol o'n gwaith. Mae'r unigolion hyn yn sicrhau bod gofal bugeiliol i'n pobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae'n rhaid i Arweinwyr Cymunedol sy'n gweithio gyda ni:

- Bod yn gyfeillgar
- Gallu rhoi clust i wrando
- Eisiau bod yn rhan o dîm ehangach sy'n darparu profiadau sy'n newid bywydau i bobl ifanc
- Yn hoffi bod yng nghwmni pobl ifanc ac yn gallu cysylltu â nhw
- Bod yn awdurdodol heb fod yn rhy ddisgybledig
- Bod yn angerddol am ein gwaith a'r effaith y gall y celfyddydau ei chael ar fywydau pobl ifanc

**Tasgau a Chyfrifoldebau Allweddol**

1. Cefnogi pobl ifanc mewn ymarferion wythnosol mewn ardal leol
2. Cefnogi'r bobl ifanc o ymarferion wythnosol mewn ymarferion / digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod gwybodaeth allweddol am unigolion yn cael ei throsglwyddo i'r rhai sy'n arwain y sesiynau hyn fel bo'n briodol.
3. Darparu cymorth ar fysiau ar gyfer ymarferion a digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol
4. Bod yn bwynt cyswllt i arweinwyr y côr wrth ymarfer i'w cefnogi i sicrhau bod pob unigolyn yn iawn
5. Sylwi ar newidiadau mewn ymddygiad mewn ymarferion wythnosol a throsglwyddo gwybodaeth perthnasol i'r arweinwyr côr i gefnogi agwedd cynhwysol i ymarferion
6. Bod yn ymwybodol o wybodaeth allweddol am leoliadau ymarfer e.e. lle cedwir y pecyn cymorth cyntaf, lle mae'r pwynt ymgynnull tân ayyb. o'r daflen wybodaeth
7. Bod yn gyfrifol am ddiogelu pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn eu gofal, gan drosglwyddo gwybodaeth fel y bo'n briodol i'w Rheolwr Prosiect Rhanbarthol ar bryderon diogelu
8. Sicrhau bod pob person ifanc yn cael ei groesawu a'i gynnwys yn ein gwaith
9. Cefnogi pobl ifanc i fod yn ddinasyddion cyfrifol drwyddi draw, trwy sicrhau bod yr ystafell ymarfer yn cael ei gadael yn lân ac yn daclus ar ôl pob ymarfer, annog parch at arweinwyr côr ayyb.
10. Cefnogaeth i bontio allan o fywyd y côr fel y bo'n briodol a gyda chefnogaeth gan y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol
11. Rhoi gwybod i'r Tîm Datblygu am unrhyw ddyfyniadau gan bobl ifanc neu eu rhieni a allai helpu i gefnogi ein gwaith codi arian
12. Rhoi gwybod i'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol am astudiaeth achos da am ddatblygiad neu gynnydd unigolyn
13. Rhoi gwybod i'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol am unrhyw grwpiau neu ddigwyddiadau lleol a allai gefnogi gwell cysylltiadau cymunedol neu gyfleoedd recriwtio
14. Rhoi gwybod i'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol am unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu risg
15. Sicrhau bod gennych y wybodaeth diweddaraf am ymarferion a digwyddiadau drwy'r Porth
16. Dilyn canllawiau / ceisiadau gan y tîm ehangach weithiau heb ofyn cwestiynau lle mae dull arbennig o sensitif yn cael ei gymryd

**Ymddygiadau Allweddol**

Disgwylir i bob Arweinydd Cymunedol i:

1. Fod yn llygaid a chlustiau'r elusen ar lawr gwlad
2. Fod yn anfeirniadol, gan dderbyn bob unigolyn am bwy ydyn nhw a'u cefnogi i fod yn nhw eu hunain yn yr ystafell ymarfer
3. Fod yn gynhwysol ac yn ymrwymedig i gefnogi pobl i gael mynediad i'n gwaith
4. Ddefnyddio iaith briodol sy'n dangos ymrwymiad a dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan sicrhau ein bod yn gynhwysol ac nad ydym yn troseddu pobl trwy'r geiriau a ddefnyddir
5. Fod yn fodel rôl
6. Fod yr oedolyn cyson a dibynadwy yn yr ystafell ymarfer wythnosol a trosglwyddo hwn i ymarferion a digwyddiadau rhanbarthol neu genedlaethol
7. Gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau allweddol, yn enwedig polisi Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed a pholisi Iechyd a Diogelwch
8. Drin gwybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol, oni bai bod pryder diogelu neu argyfwng meddygol
9. Hyrwyddo gwaith Elusen Aloud, bod yn eiriolwr ac yn llysgennad lleol dros ein gwaith

**Nid ydym yn disgwyl i Arweinwyr Cymunedol:**

- Disgyblu pobl ifanc yn ystod ymarferion
- Disgyblu pobl ifanc wrth iddynt berfformio
- Dwyn anfri ar yr elusen neu drafod pethau nad ydynt yn hapus amdanynt o flaen cyfranogwyr neu gefnogwyr
- Bod yn gyfrifol am allbwn artistig neu ansawdd
- Bod yn unswydd gyfrifol am wybodaeth feddygol neu ofal brys
- Cymryd cofrestrau mewn ymarferion

**Mae Elusen Aloud yn ymrwymo i gefnogi Arweinwyr Cymunedol drwy ddarparu:**

- Gwiriadau DBS
- Digon o wybodaeth i allu cyflawni'r rôl yn effeithiol
- Cefnogaeth Rheolwr Prosiect Rhanbarthol
- Cyfleoedd i'r tîm ehangach ddod at ei gilydd i drafod meysydd sy'n peri pryder / arfer gorau
- Treuliau allan o boced fel y bo'n briodol (lle nad oes cludiant yn cael ei ddarparu neu os oes angen teithio i ymuno â'r cludiant sydd ar gael neu i ymarfer lleol)
- Hyfforddiant fel y bo'n briodol i allu cyflawni'r rôl yn effeithiol

**Mae Elusen Aloud yn disgwyl i Arweinwyr Cymunedol:**

- Mynychu ymarferion dwy awr yr wythnos yn ystod tymhorau ysgol
- Mynychu ymarferion a digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol yn ystod y tymor
- Bod yr oedolyn cyfrifol ar fysiau ar gyfer ymarferion rhanbarthol a chenedlaethol